# Y DINESYDD

PAPUR CYMRAEG
CAERDYDD A'R CYLCH

IONAWR/CHWEFROR 1976

RHIF 27

# Y Ffordd Ymlaen

**Wrth i ni symud i mewn i ail fis 1976, erys un o gwestiynau llosg 1975 heb ei ateb hyd yn hyn, sef beth a fydd dyfodol addysg Gymraeg yn y brifddinas. Wedi llawer o wrthwynebu, symudwyd Ysgol Gymraeg Bryntaf o Fynachdy i hen Ysgol Uwchradd y Merched, Y Parade, Caerdydd, cam y proffwydai Owen John Thomas (*Y Dinesydd* Gorffennaf/Awst) a fyddai "yn cael effaith arafol andwyol ar ddatblygiad addysg Gymraeg yn y Ddinas."**

Mewn cyfarfod rhwng 400 o rieni Ysgol Bryntaf a Mr Fred Adams, Cyfarwyddwr Addysg De Morgannwg ar Orffennaf 16eg, cymhellwyd y rhieni i dderbyn y syniad o symud i'r Parade fel cam dros dro. Mynegai Mr Adams ei gefnogaeth i'r syniad o sefydlu tair ysgol o fewn cylchoedd llai, a gobeithiai y gallai ei adran gynnig cynllun ar gyfer sefydlu rhagor o Ysgolion Cymraeg yng Nghaerdydd o fewn chwe mis. Yn sgîl sefydlu'r ysgolion cynradd newydd, teimlai y byddai'r syniad o ddefnyddio'r adeiladau yn Y Parade ar gyfer Ysgol Uwchradd Gymraeg yn dderbyniol.

Calonogol dros ben. Ond beth sydd wedi digwydd ers hynny? A yw'r Adran Addysg wedi rhoi unrhyw awgrym fod cynllun pendant yn yr arfaeth, nawr fod y chwe mis wedi dod i ben? A yw rhieni Bryntaf wedi dod i dderbyn Y Parade fel cartref boddhaol i'r ysgol yn y cyfamser? A oes perygl i ni golli'r cyfle hwn drwy oedi a gohirio?

Yn obeithiol, na. Mae cynrychiolwyr y Gymdeithas Rieni i fod i gwrdd â'r Cyfarwyddwr Addysg yn ystod yr wythnos hon a mawr hyderir y daw cynigion pendant allan o'r cyfarfod hwnnw.

Yn sicr, mae'n argoeli'n dda am sefydlu Ysgol Uwchradd Gymraeg yn y dyfodol agos. Mae pwyso cynyddol ar Gyngor De Morgannwg o gyfeiriadau eraill nawr, yn ychwanegol at ymdrechion rhieni a mudiadau yng Nghaerdydd dros gael ysgol o'r fath. Mae'r dylifiant o blant De Morgannwg dros y ffin i Ganol Morgannwg i Ysgol Gyfun Llanharri yn peri pryder i Gyngor y sir honno, gan y gall y ffrydlif hwn olygu y bydd Llanharri yn annigonol o ran maint ymhen blwyddyn neu ddwy. At hynny, mae Cyngor De Morgannwg ei hun yn poeni o safbwynt ariannol: cyst dipyn mwy iddynt hwy, mewn taliadau y pen, i ddanfon plant i'w haddysgu yn nhiriogaeth awdurdod addysg arall na phe gwneid darpariaeth ar eu cyfer o fewn ffiniau eu sir eu hunain. Yr ateb rhesymegol yw troi'r Parade yn Ysgol Uwchradd Gymraeg Caerdydd cyn gynted ag sy'n bosib.

Beth am Fryntaf wedyn? Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd sefydlu ysgolion cynradd newydd, llai nid gwthio Bryntaf i gorlan newydd, fwy.

(Fe fydd yr ysgol yn rhyw 600 o blant y flwyddyn nesaf, sefyllfa gwbl annerbyniol i ysgol gynradd.)

Yn sicr, mae yna nifer o ffactorau o blaid polisi gwasgaru. Yn gyntaf, y ffaith fod poblogaeth ysgolion cynradd Caerdydd eisoes yn crebachu, gyda mwy mwy o leoedd gwag yn cynnig

(Parhad ar.dud. 4)

## NEFOEDD BILINGWAL?

Yn ddiweddar, apwyntiwyd esgob newydd i esgobaeth Llandaf a'r gŵr a ddewiswyd oedd Y Gwir Barchedig John Poole-Hughes, Cymro di-Gymraeg. Does neb yn amau cymwysterau llachar yr esgob newydd, ond er iddo dreulio bore'i oes yng nghylch Llanymddyfri, ni all siarad Cymraeg — a dyna amddifadu eglwys Dewi Sant (ac eglwysi eraill y tu allan i'r ddinas) o wasanaeth esgob Cymraeg. Dywedodd un esgob un tro mai'r Ysbryd Glân sy'n rheoli'r penodiad o esgob. Os gwir hyn, mae iaith y nefoedd mewn cryn berygl.

Deallir y bydd yr esgob newydd yn penodi esgob cynorthwyol ar ei liwt ei hun. Hyderir y bydd ei gynghorwyr yn dweud wrtho fod y gallu i siarad Cymraeg yn bwysig ar yr hen ddaear yma, beth bynnag am y nefoedd, os nad yw ambell eglwys (fel Dewi Sant) yn mynd i orfod edrych y tu allan i'r esgobaeth am wasanaethau cyflawn pan fo galw am esgob.



## Y BUDDUGWYR!

Cefin Roberts ac Eirlys Britton, Aelwyd Caerdydd cwmni'r buddugol y Gystadleuaeth Ddrama a gynhaliwyd dan nawdd Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd, gyda'u perfformiad o "Un Briodas" John Gwilym Jones. Enillodd Cefin y darian am yr actor unigol gorau hefyd.

Er mai dim ond codi arian i Gronfa'r £1m oedd y bwriad gwreiddiol, gan ddilyn llwyddiant diamheuol y fenter yn Theatr Bute (30 a'r 31 Ionawr, gyda chwe chwmni yn cystadlu am y darian, rhodd hael Mr Dafydd Morgan, Penarth), gobeithir ei sefydlu'n ŵyl flynyddol o hyn ymlaen. Bydd cyfarfod i drafod y mater nos Wener, 20fed Chwefror am 7.00p.m. yn festri'r Tabernacl — croeso i unrhywun sydd â diddordeb.

## Cystadleuaeth y Dysgwyr

Chi'r Dysgwyr — cofiwch am y Gystadleuaeth Stori Fer. Straeon at y Golygydd erbyn MAWRTH 7fed. Apêl arbennig atoch chi athrawon dosbarth nos, Wlpan ac ati: wnewch chi dynnu sylw eich disgyblion at y gystadleuaeth hon a'u hannog i gystadlu? Mae gwobrau o £10, £5, £2.50 a £1 mewn tocynnau llyfrau Cymraeg ac fe gyhoeddir y stori orau yn rhifyn mis Ebrill.

# Noson Werin Chapter

Glywsoch chi Roy Saer yn chwarae'r llwyau erioed? Naddo? A wyddoch chi unryw beth am Ganu Gŵyl Fair? Na wyddoch? Glywsoch chi Rachel Howell Thomas yn hel straeon erioed? Na chlywsoch?

Os felly, chwi a gewch gyfle i brofi o'r rhyfeddodau hyn oll a llawer un arall yn Theatr Canolfan Gelfyddydau Chapter, Treganna pan gynhelir yno Noson Werin o dan ofal Meredydd Evans. Heb law am Roy Saer yn llwya a Rachel Howell Thomas yn adrodd stori, bydd Phyllis a Mered yn canu cân neu ddwy ac yn son am yr hen draddodiad o ganu Gŵyl Fair; cawn ganu penillion gan Gôr Penillion Caerdydd dan arweiniad Nan Jones, unawdau gwerin gan Mair Robins ac unawdau telyn gan Mona Meirion. A mwy. Bydd yno luniaeth ysgafn hefyd. Felly, beth am alw heibio am noson a rydd gynhaliaeth i'r corff a'r enaid. (Nos Lun, Chwefror 9fed am 7.30p.m.; yr elw i Gronfa'r Mil o Filoedd).

---

Carai'r Bwrdd Golygyddol gydnabod yn ddiolchgar gymorth ariannol Cymdeithas Gelfyddydau Deddwyrain Cymru.

---

# Gwynfryn am Archdderwydd

Llongyfarchaidau gwresog i Hywel Gwynfryn ar ei ddewis yn Llywydd Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Mhorthaethwy (1-5 Mehefin 1976) Bydd yn cyflwyno ei anerchiad o lwyfan yr Eisteddfod ar y prynhawn Mercher i gyfeiliant recordiau Deg Uchaf Cymru yr wythnos honno. Mae'n debyg mai hwn fydd y digwyddiad mwyaf cyffrous yn y byd pop Cymraeg ers Pan Ddêl Tachwedd, 1904.

Pleser oedd clywed hefyd y bydd R. Alun Evans, Caerdydd yn un o arweinyddion yr Eisteddfod, ynghyd â Sulwyn Thomas, Caerfyrddin; Garry Nicholas, Llanelli; Islwyn Williams, Talwrn. Cyflwynir balŵn yr un i'r pedwar arweinydd ar derfyn eu dyletswyddau, mewn seremoni syml ac urddasol.


## GWASG PRIFYSGOL CYMRU

COFIWCH FOD Y WASG WEDI SYMUD I ADEILAD NEWYDD CAMPUS YN ARDAL CATHAYS

* * *

GALWCH I WELD EIN DETHOLIAD O LYFRAU YSGOLHEIGAIDD O BOB MATH

* * *

MYNNWCH GATALOG O'R HOLL GYHOEDDIADAU

* * *

*GWASG PRIFYSGOL CYMRU,*
*6 GWENNYTH STREET, CATHAYS,*
*CAERDYDD CF2 4YD.*


# NEWYDDION CWM RHYMNI

## CYMDEITHAS GYMRAEG CAERFFILI

Yng Nghyfarfod cyntaf y flwyddyn newydd rhoddwyd darlith gan Dr Ceinwen Thomas ar y Wenhwyseg, sef tafodiaeth ardal Gwent, gyda golwg arbennig ar iaith cylch Nantgarw a Chaerffili. Ychydig iawn o Gymry Cymraeg Caerffili sy'n enedigol o'r ardal a phleser pur oedd clywed Dr Thomas, a anwyd ac a fagwyd yn Nantgarw, yn agor clustiau'r bobl ddyfod i gywreinrwydd a phrydferthwch yr iaith frodorol. Llywyddwyd y cyfarfod gan y Parchedig Denzil John a mynegwyd diolch ar ran y Gymdeithas gan Arthur Thomas — gyda chymysgedd o iaith Sir Benfro a 'Stiniog'.

Mae cyfarfod nesaf y Gymdeithas, a gynhelir ar nos Fawrth, Chwefror 17eg, dan ofal y Cwmni Drama lleol ac eleni mae'r Cwmni'n cyflwyno Noson Lawen. Bydd y perfformiad yn Ysgol Gymraeg Caerffili a bydd yn cychwyn am 7.30p.m. Pris mynediad: 25c i oedolion a 10c i blant a phensiynwyr.

Bydd y Gymdeithas yn dathlu Gŵyl Dewi eleni gyda noson o 'Gawl a Chân' dan ofal Mr D.J. Owen, yng Nghanolfan Gymdeithasol y Twyn am 7.15p.m. nos Lun, Mawrth 1af.

## MERCHED Y WAWR

Ar nos Lun, Chwefror 23ain am 7.30p.m. yng Nghanolfan y Twyn, cynhelir cyfarfod i sefydlu cangen o Ferched y Wawr i Gaerffili a'r cylch. Gwahoddwyd y swyddogion Sir i annerch y cyfarfod a threfnir arddangosfa gan Gwmni Miri Cymru. Mae'r trefniadau ar gyfer y noson yn nwylo Mrs Eleri Betts, Afallon, Llwyn Eithin (Ffôn: 867033) a gofynnir i unrywun sydd yn methu dod i'r cyfarfod cyntaf ond sydd â diddordeb mewn ymuno â'r gangen i gysylltu ag Eleri.

## CWM YR ABER

Daeth tyrfa niferus ynghyd i festri Beulah, Abertridwr i fwynhau darlith Minwell Tibbott ar hanes bwydydd yng Nghymru yn rhaglen aeaf Cymdeithas Gymraeg Cwm yr Aber. Roedd yr aelodau hŷn wrth eu bodd yn dwyn i gof hen ddulliau o baratoi bwydydd a chafwyd blas arbennig ar ffilmiau Mrs Tibbott a oedd yn ychwanegol at y ddarlith ei hun. Llywyddwyd y cyfarfod gan Mr Tom Hughes a mynegwyd diolch ar ran y Gymdeithas gan Mrs M. Watkins.

## CYLCH DYSGWYR

Trefnir Noson Lawen arbennig iawn ar nos Iau, Chwefror 12fed am 7.30p.m. yng Ngwesty'r Goodrich, Heol y Fan, Caerffili. Nid yw mynediad yn gyfyngedig i ddysgwyr yn unig ac mae croeso cynnes i bawb i ddod i fwynhau noson ysgafn yng nghwmni rhai o artistiaid y cylch. Gellir sicrhau tocynnau ymlaen llaw am 25c oddi wrth Alun Charles, 4 Lôn y Garwa, Caerffili. (Ffôn: 866074)

## NEWID SWYDD

Mae Elfan Jones erbyn hyn wedi gadael ei swydd fel dirprwy brifathro yn Ysgol Gymraeg Gilfach, Bargod ac wedi cychwyn fel prifathro Ysgol Gymraeg Merthyr Tudful. Cyn iddo ymadael dymunwyd yn dda iddo gan holl athrawon, rhieni a phlant yr ysgol gan ddiolch iddo am ei gyfraniad gwerthfawr yn ystod ei arhosiad ym Margod.

Gan ei fod yn symud o'r ardal, roedd Elfan hefyd yn ymddeol o'i swydd fel ysgrifennydd yr Urdd yng Nghwm Rhymni. Yn ei le penodwyd Mrs Dorothy Morgan a Miss Lynette Jones, y ddwy o Ysgol Gymraeg Caerffili.

*Cynhelir Cynhadledd Basg Amgueddfa Werin Cymru yn Nhŷ'r Dyffryn, Sain Nicolas o Ebrill 21 i'r 23, 1976. Thema'r gynhadledd fydd "Yr Aelwyd mewn Hanes" a cheir darlithiau ar y thema hon gan arbenigwyr o Gymru, yr Alban, Iwerddon, Llydaw a Lloegr, ynghyd â ffilmiau o rai o'r gwledydd hyn sy'n berthnasol i'r drafodaeth.*

# colofn sbectol SIAN

### DAU DDYFYNIAD, DAU GYFARFOD

Dyma ddyfyniad o eiriau colofnwraig enwog yn *Y Dinesydd*, Mawrth 1975: "Beth am i ni yng Nghaerdydd fynd ati i sicrhau mai yn ein prifddinas y bydd canolbwynt dathliadau Gŵyl Dewi 1976, ac nid yn yr Albert Hole."

" 'Dathliadau Gŵyl Dewi'. Bydd Tŷ'r Cymry'n ysgwyddo'i gyfrifoldeb yn y mater uchod drwy ddathlu agor a chloi wythnos Gŵyl Dewi 1976. Mae'n briodol i ni wneud hynny yn ein Prifddinas ni ein hunain ond yw hi?" Dyma ddyfyniad o gylchlythyr Clwb Tŷ'r Cymry i hysbysebu eu gweithgareddau. Felly, cefnogwn y ddau gyfarfod hwn:

Nos Sul, Chwefror 29, Cymanfa Ganu Gyd-enwadol yn Ebeneser.

Nos Sadwrn, Mawrth 6. Cyngerdd Mawreddog gyda Chôr Godre'r Aran, yn Theatr Reardon Smith.

### DWY HYSBYSEB

MEWN..........

Feddyliais i erioed y buaswn yn cael fy neffro gan Gyngor y Celfyddydau! Dyna beth ddigwyddodd wrth imi deithio'n gysglyd ar fws y dref un bore. Sylwais ar boster yn hysbysebu ORIEL uwchben un o ffenestri'r bws. Fe'n hanogwyd gan y poster UNIAITH GYMRAEG (gwych!) i brynu llyfrau, cerdiau, posteri a *pheint*iadau yn y siop. Wel, rwy wedi clywed si fod pobl â BRAINS yn gweithio i'r Cyngor — Iechyd Da!

.......... A MÂS

Hys*bws*eb arall i'r Cyngor efallai.

### DWY OCHR

Gan fod llawer o son y dyddiau hyn am benblwydd Pont Menai, gadewch imi dynnu'ch sylw at yr adroddiad canlynol a welwyd ym mhapur "Cenedlaethol" Gogledd Cymru ar ôl y tân mawr ym

"The fire began on the Welsh side of the bridge." Drwg gennyf ddweud y bydd 'Steddfod yr Urdd eleni ar yr English side.

### DWY RAGLEN

Golygfa — Stafell fechan ym mherfeddion canolfan y BBC. Cynhyrchydd 'Dewch am Dro' yn eistedd wrth ei ddesg. Enter L. — y cyflwynydd.
Cynhyrchydd: Helo Alun, wedi cael syniad gwych.
A.W.: O dyna dda
Cynhyrchydd: Beth am roi cyfle i fechgyn y BBC na sy'n cael eu clywed na'u gweld ar y teledu i gymryd rhan yn 'Dewch am Dro'?
A.W.: Y 'back-room boys' i chi'n feddwl? Syniad grêt, Aidia fendigedig.
Cynhyrchydd: Wedi'r cyfan, maen nhw'n llafurio'n galed yn y cefndir, does neb yn eu hadnabod nac yn gwybod amdanynt hyd yn oed.
A.W.: Druan, pwy oedd gennych mewn golwg?
Cynhyrchydd: Wel, Gwenlyn Parry, Wyre Thomas, Bernard Evans, Arnold Lewis.... ('Dewch am Dro', Ionawr 24).

Codwyd fy nghalon rhyw dair awr yn ddiweddarach pan glywais lais swynol Nana Mouskouri yn canu 'Ar Hyd y Nos' — yn Gymraeg! Wir!

### DAU LUN, DAU BAPUR

Ni allaf son am ferch heb grybwyll yn frysiog y ddeddf newydd sbon danlli i roi cydraddoldeb i ni'n merched. Felly, am y tro cyntaf yn hanes hir *Y Dinesydd*, cynhwysir darluniau o'r radd uchaf gan gartwnwraig o fri i gofio'r achlysur hanesyddol.







**Bydd y rhifyn nesaf o'r *Dinesydd* yn ymddangos ar Fawrth 5ed. Deunydd ar gyfer y rhifyn hwnnw erbyn CHWEFROR 23 fan bella, os gwelwch yn dda. Danfoner at:**

**Golygydd *Y Dinesydd*, 66 Heol Maendy, Cathays, Caerdydd.**

# Y Gymdeithas Lenyddol

Rhannwyd rhaglen y Gymdeithas y tymor hwn yn ddau hanner o dri chyfarfod yr un. Testun yr hanner cyntaf, o fis Hydref hyd fis Rhagfyr, oedd agweddau ar fywyd a gwaith ... diweddar

eu bod wrth eu bodd yn y ddinas, roedd y newyddion yn bur annisgwyl.

Ond fe ddaeth yr alwad i fugeilio eglwysi Aberystwyth — galwad sy'n ddyrchafiad a hefyd yn gyfle i ddychwelyd i'r hen ardal a bu'r cyfle'n rhy daer ei apêl i'w wrthod. Erbyn y bydd y newyddion hyn wedi gweld golau dydd, fe fydd yr holl baratoadau ar gyfer cyfarfod ffarwel mewn llaw. Fe sefydlir Y Parchedig George Noakes yn ficer ar eglwysi Aberystwyth yn ddiweddarach yn y mis.

Carfan arall a fydd yn gweld eisiau Mr Noakes yw Dosbarth Athroniaeth yr Adran Efrydiau Allanol sy'n cwrdd yn Adeilad y Celfyddydau bob nos Fawrth o dan ofal Dr Meredydd Evans. Bu'r athronydd-offeiriad hynaws yn ffyddlon iawn i'r dosbarth ar hyd yr adeg — a thristwch mawr fydd colli'r elfen ddiwynyddol yn y trafod athronyddol o hyn ymlaen!

Dymuniadau gorau iddo a Mrs Noakes yn eu cartref newydd — a lwc owt athronwyr Aberystwyth a'r cylch!



*Y PARCH GEORGE NOAKES*

## — y ddinas




...ob un sy'n dod i eglwys ... Sant yn barod i ...ud, "Ond yw'r lle'n lân ...lus?"
...aid i'r rhan fwyaf o'r ...m hyn fynd i Mrs ...n a fu'n gwneud y gwaith ...ynyddoedd bellach. ...yn ddiweddar, penderfodd ddychwelyd i'w hen ...n Nhrimsaran, Dyfed. ...nad yw iechyd Mrs Slimm ... bod gyda'r gorau yn ...eddar, mae pawb yn deall ...m, ond mae ei holl ...illion yn y ddinas yn ...uno hawddamor iddi wrth ...hi droi ei golygon tua'r ...ewin. Arbenigrwydd ... Slimm oedd ei gallu i drin ...au mewn llestr, a'r hyn a ...d galon dyn o wybod ei ...am fynd yw fod blodau'n ...'n llawer gwell yn ...msaran nag yng Nghaer...d, medden nhw!

# TUDALEN Y DYSGWYR

*Mae'n wir i ddweud fod llawer mwy o weithgaredd ar gyfer dysgwyr y dyddiau yma na fu erioed o'r blaen, a mwy a mwy o gyfle i gwrdd â Chymry Cymraeg o hyd. Cafwyd noson lwyddiannus arall ar y 24ain o Ionawr yng Ngwesty Trefforest; mae'r hen gwrw'n siwr o fod yn dipyn o help i droi pobl yn ddwyieithog. Hoffwn apelio eto at Gymry Cymraeg i gofio ceisio siarad yn Gymraeg bob amser â'r dysgwr — mae'n sarhad i siarad Saesneg ag e ag yntau'n ymlafnio i ddysgu'r iaith.*

**Dysgwyr y De-ddwyrain**

*Mae Cleif Warlaw, sy'n Ysgrifennydd Cymdeithas Dysgwyr De-ddwyrain Cymru, yn dweud fod llawer o bethau'n cael eu trefnu ym Morgannwg o dan nawdd y Gymdeithas. Ydych chi'n gwybod am y gymdeithas hon? Os ydych am wybod mwy am ei gwaith, ysgrifennwch at Cleif Warlaw, Tafarn y Dderwen Frenhinol, Bryncethin. Mae Cleif, gyda llaw, wedi dysgu siarad pump o ieithoedd erbyn hyn ac mae'n teimlo ei hun yn Cymro llawn bellach ar ôl dysgu'r iaith.*

**Cyrsiau byr**

*Wel, mae pawb sy'n darllen y golofn yma am wybod am gyrsiau sy'n cael eu trefnu — dyma rai ohonynt beth bynnag:*

*Mawrth 12-14 Gwersyll Llangrannog. Cwrs yn cael ei drefnu gan John Albert Evans, 54 Fidlas Road, Llanishen. Ysgrifennwch ato am fanylion.*

*Mawrth 19-21 Cwrs Morgannwg Ganol, Tŷ Dyffryn. Manylion oddi wrth y Warden.*

*Mawrth 19-21 Cwrs Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn Llangrannog. Manylion o Swyddfa Cymdeithas yr Iaith, 5 Maes Albert, Aberystwyth. Ffôn: Aberystwyth 4051.*

## NEWYDDION

**Cyrsiau hir yr Haf**

*Cyn trefnu eich gwyliau haf, beth am ystyried mynd ar gwrs hir lle gellwch gael eich boddi mewn môr o Gymreictod dros gyfnod eithaf hir? Dyma rai cyrsiau felly:*

*Gorffennaf, dwy wythnos - Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth. Manylion oddi wrth Miss Lili Thomas, Y Gyfadran Addysg, Stryd Cambrian, Aberystwyth.*

*Diwedd Gorffennaf, un wythnos - Coleg Harlech. Manylion oddi wrth Silyn Hughes, Coleg Harlech, Harlech, Gwynedd.*

*Awst 9-20 - Ysgol Haf y Barri. Manylion gan y Swyddog Addysg Bellach, Sunnyside, Penybont ar Ogwr, Morgannwg Ganol.*

*Nawr yw'r amser i feddwl am y cyrsiau hir yma - anfonwch am fanylion. Mae*

*Gorffennaf 18-22 - Plas Gregynog. Manylion oddi wrth Y Warden, Coleg Harlech, Harlech, Gwynedd.*

*Gorffennaf, dwy wythnos - Coleg y Brifysgol, Bangor. Manylion oddi wrth J.Ll. Williams, Adran Allanol, Coleg y Brifysgol, Bangor.*

*rhai cyrsiau'n eithaf rhad hefyd; er enghraifft, rhyw £7 bydd Ysgol Haf y Barri yn costio os byddwch yn teithio bob dydd ac yn dod o Forgannwg Ganol.*

*JOHN ALBERT*

**Geirfa**

*sarhad - insult*
*ymlafnio - strive, struggle*
*dan nawdd - under the auspices of*
*Cymreictod - Welshness*
*Cyfadran - Faculty*




## Y Gystadleuaeth

Peidiwch ag anghofio am Gystadleuaeth Gŵyl Dewi *Y Dinesydd* sef ysgrifennu stori fer ar unryw destun. Unwaith eto, mae gwobrau o werth £10, £5, £2.50 a £1.00 o docynnau llyfrau Cymraeg ar gael. Bwriedir cyhoeddi'r stori fer orau i gyd yn *Y Dinesydd* ym mis Ebrill.

Danfonwch eich stori at Y Golygydd, 66 Heol Maendy, Cathays, Caerdydd, o dan enw ffug; ysgrifennwch eich enw iawn a'ch cyfeiriad ar ddarn arall o bapur gan ddweud hefyd ers faint yr ydych wedi bod yn dysgu Cymraeg.

Mae dyddiad cau y Gystadleuaeth yn cael ei symud ymlaen i FAWRTH 7fed yn awr rhag ofn fod rhai dysgwyr heb weld yr hysbysiad am y gystadleuaeth yn rhifyn mis Rhagfyr gan fod dosbarthiadau nos ac ati wedi dod i ben cyn i'r *Dinesydd* ymddangos. Felly, ewch ati ar unwaith i ysgrifennu!

### CHWIFIO'R FANER

Cynhelir dydd baneri'r Urdd yng Nghaerdydd ddydd Sadwrn nesaf, Chwefror 7fed. Mae mawr angen am werthwyr; apelir yn daer arnoch i roi awr neu ddwy o'ch amser a dod i Festri Ebeneser rhwng 9.30a.m. a 4.00p.m. i gael cyfarwyddiadau.

### Y Ffordd Ymlaen (par.)

cyfle i ad-drefnu a defnyddio adeiladau a fyddai'n dod yn wag felly ar gyfer sefydlu Ysgolion Cymraeg newydd. Yn eilbeth, y gost gynyddol o dalu am gludo plant i ysgol ganolog ymbell o'u dalgylchoedd naturiol, sy'n faich parhaol ar y Pwyllgor Addysg. Yn drydydd, parodrwydd llaweroedd o rieni i roi addysg Gymraeg i'w plant pe bai ysgol Gymraeg ar gael o fewn cyrraedd rhesymol. Yr ateb amlwg yn y sefyllfa hon yw mynd a'r ysgolion at y plant.

Wele gyfle euraid i ddiwallu galw cynyddol rhieni Caerdydd am addysg Gymraeg i'w plant a sefydlu addysg Gymraeg ar droedle eang a diogel yn y brifddinas. Na foed i ni ei golli drwy unrhyw ddiffyg ymdrech ar ein rhan ni; rhaid dal i bwyso am addewidion pendant.

# Difyrrwch Nadolig

Gyda thŵf y teledu fel cyfrwng diddanwch, edwino a wna pwysigrwydd y pantomeim Nadolig traddodiadol Seisnig; serch hynny, y pantomeim neu'r ddrama Nadolig yw profiad cyntaf llawer plentyn o hyd o fyd y theatr. Mae hyn yn arbennig o wir am Gymry Cymraeg ifainc bellach, gyda llwyddiant Cwmni Theatr Cymru dros y blynyddoedd diwethaf i fowldio idiom y pantomeim traddodiadol Seisnig yn ddifyrrwch Cymraeg gwreiddiol. Felly, gan gofio pwysigrwydd profiadau cyntaf i blant, roedd dyn yn edrych yn obeithiol am ryw awgrym o'r naws hudolus honno sy'n hoelio sylw'r gynulleidfa yn ogystal â'i diddanu yn y sioeau Nadolig a oedd ar gael eleni i blant. Haws edrych na chael......

O leiaf, roedd tipyn o ddewis gan blant Caerdydd y Nadolig hwn. Yn y Theatr Newydd, Stan Stennett oedd y prif atyniad yn yr offrwm mwyaf traddodiadol — a mwyaf Seisnigaidd — sef "Mother Goose". Llwyddodd i gynnwys un neu ddau o gyfeiriadau lleol a rhywfaint o hiwmor cyfamserol ond dioddefai'r pantomeim hwn o syrffed o eitemau 'variety' a wnai'r noson yn un or-faith, gyda llawer o ail-adrodd; tuedd hyn oll oedd creu diflastod ac anesmwythdra ymhlith y plant. Perfformiad digon lliwgar, gyda thipyn o ddawnsio da gan yr "Olivettes" — ond trist oedd colli rhediad y stori ei hun ynghanol popeth arall.

Drama i blant yn hytrach na phantomeim oedd "Madam Wen" (Theatr yr Ymylon, yn y Sherman) er fod y stori hon am forleidr benywaidd a grwydrai arfordir Cymru yn meddu ar yr holl elfennau angenrheidiol: prif fachgen a phrif ferch sy'n plesio pawb drwy gwympo mewn cariad â'i gilydd; mwy nag un dihiryn milain; cath, a math o 'dame' (prin fod 'na air yn y Gymraeg sy'n cyfleu gwir ansawdd y cymeriad rhyfedd hwnnw!) Yn anffodus, ni wnaethpwyd yr un ymdrech i gydblethu'r elfennau hyn yn un cyfanwaith esmwyth ac ni wnaeth y cynhyrchiad, a ymddangosai fel pe bai angen llawer mwy o ymarfer arno, ddim byd mwy na straffaglu yn ei flaen. Chwareuoedd Shirley King ei rhan hi fel Brenhines Manaw gyda chryn raen a disgleirdeb ond ymddangosai gweddill yr actorion fel pe baent yng anghysurus ynglŷn â'r holl weithgareddau — nid heb reswm.

Mewn cyferbyniad llwyr â'r un ukelele, unig gyfeiliant cerddorol "Madam Wen", darparodd Cwmni Theatr Cymru grŵp roc bach ond hynod ddawnus ar gyfer eu cynhyrchiad teithiol o "Afagddu". Rhoddai hyn sail gref i'r cynhyrchiad, rhywbeth y gallai'r plant ymateb iddo ar unwaith, ac amheuthun iawn oedd gweld yr idiom estron hon wedi ei thrawsgludo mor llwyddiannus i'r Gymraeg. Nid oedd y castio'n gwbl foddhaol, a thueddai'r hanner cyntaf i lusgo, ond cyflymodd y tempo gryn dipyn ar ôl yr egwyl gyda chymorth Iola Gregory fel gwrach ar gefn moped, a pherfformiad doniol iawn gan Iestyn Garlick fel Afagddu. Cân Iestyn, "Afagddu" oedd uchafbwynt y noson mae'n siwr, yn eithriadol o ddoniol ond wedi ei pherfformio'n wych er mawr fwynhad i'r gynulleidfa. Ond seren y sioe i mi oedd Llew Capie, cymeriad bendigedig o ddrwg a doniol wedi ei chwarae'n afieithus gan Valmai Jones, a oleuodd dipyn ar adegau tywyllaf y sioe hon.

Manteisiwyd ar bob cyfle a roddwyd i'r gynulleidfa i ymuno yn yr hwyl gan dorf o blant cyffrous dros ben a ymatebai nerth esgyrn eu pen i bob digwyddiad ar y llwyfan.

Dyma rywbeth na all y teledu fyth 'mo'i gynnig.

Ms BLODYN

# Cael Hwyl ar yr Ŵyl

Cafwyd noson arbennig iawn i ddathlu Gŵyl y Santes Dwynwen, nos Sadwrn Ionawr 24ain. Cynhaliwyd y noson yn Nhŷ Maeth, a chafwyd lluniaeth eithriadol o flasus wedi ei baratoi gan aelodau pwyllgor Cylch Meithrin Radur a Phentrepoeth.

Ymhlith yr artistiaid a fu'n diddanu'r cwmni, roedd Côr Clwb Golff Dinas Powys, casgliad o Gymry sydd hwyrach yn fwy enwog am eu canu nag am eu golff, dan eu harweinydd ffraeth, Gwilym Lloyd Roberts. Bu Shân Emlyn yn canu caneuon gwerin a chafwyd cyfraniad difyr gan y grŵp Taliesin. Robin Jones oedd arweinydd y rhaglen. Am weddill y noson, cafodd pawb gyfle i ddawnsio'n wyllt i gerddoriaeth disgo a redwyd gan Aled Roberts.

Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor, John Cynon Davies, air neu ddau a bu Dr Ralph Vaughan yn diolch i bawb a gymerodd ran yn y noson. Rhaid diolch yn arbennig hefyd i Ysgrifenyddes weithgar a hynod effeithiol y Pwyllgor, Mrs Veronica Williams a fu'n gyfrifol am drefnu'r cwbl.

Gan fod y Cylch Meithrin yn dibynnu ar y noson hon i godi arian ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod, da oedd gweld cynulliad cystal yno. Ac eto, gallai pethau fod wedi bod yn well eto; dioddefodd y noson dipyn o'r hen glwy' Cymreig o ddychwelyd tocynnau heb eu gwerthu ar y funud olaf fel na ellid eu gwerthu i neb arall.

Sut bynnag, gobeithio i'r noson hon godi swm sylweddol i sicrhau dyfodol y Cylch Meithrin am flwyddyn arall.



*Cefin Roberts ac Eirlys Britten wrthi'n ymarfer golygfa o UN BRIODAS.*

## PENODIADAU NEWYDD

Llongyfarchiadau i John Hefin ar ei benodi'n Bennaeth Adran Ddrama BBC Cymru. Brodor o Aberystwyth yw John ac ymunodd â'r BBC yn syth o'r coleg. Mae ef a'i briod yn byw yn Llancarfan yn awr. Llongyfarchiadau hefyd i Bernard Evans ar ei wneud yn Gynhyrchydd Teledu yn yr Adran Ysgolion (yn lle Illtyd Lewis sydd bellach wedi ymuno â'r etholedig rai yng ngwasanaeth Arolygwyr Ysgolion ei Mawrhydd). Daw Bernard i'r swydd hon o fod yn Gynhyrchydd Rhaglenni Radio i ysgolion.

## HELP!

Mae'n debyg fod 'na brinder sopranos i chwyddo rhengoedd Côr Unedig Eglwysi Caerdydd. Fe fydd y Côr yn perfformio'r Offeren yn B Leiaf gan Bach ym mis Mai, felly mae angen cantorion ar frys. Os oes gennych lais soprano nefolaidd na chafodd ei lawn werthfawrogi hyd yn hyn, cysylltwch ar unwaith ag arweinydd y Côr, Mr Arwel Hughes.

# Naoned allan o Lydaw?

Llydawr o Naoned (Nantes) yw Per Keribin; ar hyn o bryd mae'n athro Ffrangeg cynorthwyol yn Aberteifi. Mae'n poeni'n fawr am y sefyllfa warthus a ddisgrifir yn yr erthygl hon a theimla y dylid hybu'r cysylltiadau rhwng Caerdydd a Naoned a chael cefnogaeth Cymry'r brifddinas i ymdrechion gwlatgarwyr Naoned.

Ar lefel swyddogol, mae'n debyg fod cynghorwyr Naoned wedi mynegi dymuniad am feithrin cysylltiadau agosach â Chaerdydd ac aeth arweinwyr yr CNCC ati i gysylltu â chynghorwyr Caerdydd ar y mater. Afraid yw dweud wrth ddarllenwyr *Y Dinesydd* nad oedd gan yr hybarch wŷr hynny lawer o frwdfrydedd.

Sut bynnag, mae'r CNCC yn bwriadu trefnu mis Celtaidd yn Naoned ym mis Mehefin, gan wahodd artistiaid o Gymru, ac o Gaerdydd yn enwedig, i ddod i gymryd rhan yn y digwyddiadau — gwych o beth fyddai cael partïon o Gaerdydd yn mynd draw i Naoned i gefnogi'r ŵyl, a dangos ochr i lywodraeth Ffrainc. Am wybodaeth bellach, danfonwch air at y Golygydd.

Y "Boulevard de Nantes" yng Nghaerdydd yw'r arwydd mwya amlwg o'r cysylltiad rhwng Caerdydd a Naoned. Ond beth sy 'na yn adlewyrchu'r cysylltiad rhwng Cymru a Llydaw? Yn anffodus, mae perygl y bydd y cysylltiad hwn yn llai Celtaidd eto yn y dyfodol gan fod llywodraeth Ffrainc yn ceisio gwahanu Bro Naoned oddi wrth weddill Llydaw drwy ddeddf 1972 sy'n creu rhanbarthau newydd yn Ffrainc.

Mae pump *department* yn Llydaw sef Finistère, Côtes du Nord, Morbihan, Ile et Vilaine, a Loire Atlantique (Bro Naoned). Crewyd dwy ranbarth newydd: y rhanbarth "Bretagne" sy'n cynnwys pedwar departement (Finistère, Côtes du Nord, Morbihan ac Ile et Vilaine), a'r rhanbarth "Paye de Loire" sy'n cynnwys *departement* Loire Atlantique (Bro Naoned) gyda phedwar *department* Ffrengig.

Achos bod Ffrainc wedi cael ei chanoli yn ormodol, roedd angen datganoli; 'dyw hi ddim yn bosibl i'r weinyddiaeth ganol wneud popeth bellach. Ond nid datganoli'r gallu a wnaeth y llywodraeth ond datganoli'r weinyddiaeth yn unig. Lefel newydd yw'r rhanbarth rhwng y *department* a'r weinyddiaeth ganol; yn y rhanbarth, gan y *Prefet*, dyn sy wedi cael ei enwebu gan y llywodraeth, y mae'r gallu i benderfynu.

Ond wrth gwrs, mae'r corff newydd hwn yn dylanwadu ar fywyd y bobl mae'n eu rheoli ac yn creu arferion cyffredin rhyngddyn nhw. Felly mae'r llywodraeth yn anelu at greu arferion cyffredin yn y rhanbarth "Pays de Loire" rhwng Llydawyr Bro Naoned a Ffrancwyr gweddill y rhanbarth ac ar y llaw arall, creir arferion gwahanol rhwng Llydawyr Bro Naoned a Llydawyr gweddill Llydaw.

Rhanbarth diwydiannol Llydaw yw Bro Naoned a byddai'n anos i Lydaw allu ei rheoli ei hun a bod yn ddigon annibynnol o Ffrainc heb ddiwydiannau Bro Naoned. Felly mae ar y llywodraeth eisiau gwanhau Llydaw a'r rheini sy'n gweithredu tros ryddid Llydaw a democratiaeth wirioneddol.

Mae'r llywodraeth hefyd yn ceisio gwneud i'r bobl gredu nad yw Bro Naoned yn Llydewig o gwbl. Mae'r *Prefet* wedi rhannu taflenni yn rhad ac am ddim i holl ddisgyblion y "Paye de Loire" i geisio dangos fod y rhanbarth yn uned naturiol, yn ddaearyddol ac yn hanesyddol. Cynhyrchir llyfrau nawr hefyd ar hanes a daearyddiaeth y "Paye de Loire" a llyfrau hanes a daearyddiaeth Llydaw heb Fro Naoned, ar gyfer yr ysgolion. Gynt ceid yr un rhaglenni ar y teledu a'r radio drwy Lydaw gyfan ond yn awr sefydlwyd gorsaf arbennig i wneud rhaglenni gwahanol ar gyfer Naoned a'r "Paye de Loire". Rydych chi i gyd yn gwybod pa fath o ddylanwad ofnadwy sy gyda'r teledu.


Dydy gwrthwynebiad pobl Bro Naoned i'r polisi hwn ddim wedi bod yn ddigon cryf hyd yn hyn i orfodi'r llywodraeth i'w newid. Oherwydd nad oes gallu penderfynu gan y rhanbarth, dydy'r bobl gyffredin ddim wedi meddwl fod y ddeddf newydd yn ddigon pwysig iddynt weithredu'n galed i'w gwrthwynebu. Ond doedden nhw ddim wedi sylweddoli fod y llywodraeth yn defnyddio'r rhanbarth fel propaganda yn erbyn Llydaw.

Er hynny, mae llawer o bobl wedi dangos eu gwrthwynebiad. Er enghraifft, gwahoddodd Maer Naoned y Gyngres Geltaidd llynedd i ddangos bod Naoned yn hollol Lydewig. Cynhaliwyd rali hefyd gyda phum cant o bobl. Beth mae gwladgarwyr Naoned yn ceisio ei wneud nawr yw gwrthweithio propaganda'r llywodraeth trwy ddangos sut mae Bro Naoned yn Llydewig ac annog pobl gyffredin i wneud rhywbeth i ddangos eu gwrthwynebiad.

Dyna pam y sefydlwyd y CNCC (Centre Nantais de Culture Celtique — Canolfan Diwylliant Celtaidd Naoned) sy'n cynnwys holl fudiadau diwylliannol Llydewig Naoned. Mae'r ganolfan yn trefnu Festoù Noz (Nosweithiau llawen), cyngherddau, dadleuon, arddangosfeydd Llydewig neu Geltaidd yn Naoned, ond dydy hi ddim yn derbyn arian oddi wrth unrhyw gorff swyddogol ac mae'n rhaid iddi fodoli ar elw nosweithiau llawen, cyngherddau ac yn y blaen. Mae llawer o bobl nawr hefyd (tua 15,000 erbyn hyn) wedi arwyddo deiseb i ddangos eu gwrthwynebiad i bolisiau'r llywodraeth ac i ofyn am ranbarth i Lydaw gyfan.

Gall pobl Cymru, ac yn enwedig pobl Caerdydd, oherwydd y cysylltiad arbennig rhwng Caerdydd a Naoned, helpu pobl Naoned. Fe fyddai'n dda iawn creu cysylltiad agosach rhwng gwladgarwyr Caerdydd a Naoned — oes rhywbeth tebyg i'r CNCC yng Nghaerdydd?

Mae deiseb ar gael nawr yn Ffrangeg, Llydaweg, Cymraeg a Saesneg i ddangos eich bod chi'n gwrthwynebu polisi llywodraeth Ffrainc ac mae rhai Cymry wedi ei harwyddo hi yn barod. Os hoffech chi gael y ddeiseb hon neu os oes syniadau gyda chi am ffyrdd i hybu'r cysylltiad rhwng Caerdydd a Naoned, ysgrifennwch at: Per Keribin, Glasdir, Napier Gardens, Aberteifi, Dyfed.




## ORIEL YN SUDDO

Mae canolfan ORIEL, siop lyfrau ac oriel gelf Cyngor Celfyddydau Cymru wedi profi mor llwyddiannus ers ei hagor ddwy flynedd yn ôl nes bod lloriau'r adeilad wedi dechrau rhoi o dan bwysau'r llu cyson o ymwelwyr. Oherwydd hynny, fe fydd yr oriel ar gau o Chwefror 12 am fis er mwyn cywiro'r lloriau a'u hatgyfnerthu; fe fydd y siop lyfrau ar gau hefyd am bythefnos olaf y mis hwnnw. Gobeithio y cawn weld y ganolfan yn agor eto ym mis Mawrth ar sail gadarnach!

EBENESER, CAERDYDD

yn

**DATHLU CANMLWYDD A HANNER YR ACHOS**

Cynhelir yr Oedfaon Dathlu o nos Iau, Mawrth II dros y Sul, Mawrth 14 —

NOS IAU — OEDFA O FAWL AC YMGYSEGRIAD i holl aelodau'r Eglwys

NOS WENER — NOSON GYMDEITHASOL gyda Te Dathlu a Chyfraniad gan y Plant.

NOS SADWRN — YR OEDFA DDATHLU Ceir cynrychiolwyr o egwlysi'r ddinas o'r Cyfundeb a'r Undeb.

DYDD SUL — OEDFAON PREGETHU Pregethwr: Y Prifathro Ddr. Pennar Davies, Abertawe. Cawn gwmni a gwasanaeth Miss Gwyneth Evans, Madagascar, a'r Parchgn. Jonathan Evans Thomas, Aberystwyth a Hywel Mudd, Cilcennin yn ystod yr Oedfaon.

GORFFWYSWCH - YMLACIWCH



**CERBYDAU WENALLT**

*(Perchennog J.M. CROOKES)*

Cerbydau moethus gyda 20-51 o seddau i'w hurio

**SWYDDFA DOCYNNAU**

**Ffôn Caerdydd 31174**

Gwasanaeth ateb pedair awr ar hugain

WHITTLE ROAD, LECKWITH ESTATE, CAERDYDD.

**CABARET 19**

● hywel gwynfryn yn cyflwyno dafydd iwan ● heather jones ● olwen rees ● mynediad am ddim

«spotlight», gerddi sophia

☆ dechrau am 8pm ☆☆☆☆☆ bar tan 1am ☆☆☆ dawnsio tan 1.30am ☆

☆ elw at gronfa'r mil o filoedd ☆☆

19 chwefror ●●● £1 ●●●

TOCYNNAU AR GAEL O SIOP Y TRIBAN (FFÔN:: 30042)

# ££££££CHWEFROR££££££

Mae pob un ohonoch sy'n darllen Y Dinesydd wedi clywed am bwyllgor lleol Cronfa'r Mil o Filoedd erbyn hyn — (Darllenwyr — *"ydyn!"*). Fe fydd Chwefror yn fis lled lawn iddo gyda pheth wmbredd o ddigwyddiadau. I ddechrau, cynhelir Noson Werin Gymraeg yn *Chapter* ar y 9fed o Chwefror. Anaml y clywir Cymraeg yn Chapter, medden nhw, ond fe ddylai hon fod yn noson arbennig. Fe glywir côr penillion (buddugol yn y Genedlaethol), Caerdydd yn canu, ac mae'r Dr Meredydd Evans a Mr Roy Saer wedi gofalu fod digon o artistiaid eraill yn mynd i ddod i roi naws werinol i'r cyfan. Mae cangen Caerdydd a'r Bont-faen o Ferched y Wawr wedi rhoi eu dwylo wrth ei gilydd i drefnu lluniaeth ar gyfer pawb, ac fe ddylai fod yn noson i'w chofio. Mae croeso i bawb.

Ystyr pawb ydy pawb, ac mae'r pwyllgor yn ceisio darparu ar gyfer pob un, yn enwedig y plant. Ar Chwefror 14, yn Ysgol Glan-y-nant fe fydd gornest nofio nawdd, gyda Mr Thomas Davies o'r BBC a Mr John H. Davies o ysgol Glan-y-nant yn gofalu am bopeth. Dylai hyn fod yn boblogaidd ymhlith y bobl ifanc sydd â thipyn o natur pysgod ynddynt. Ond beth am y lleill a gâr ysgwyd eu "cynffonnau" ar dir sych? Wel, fe fydd pob un o'r rheiny wedi clywed erbyn hyn am CABARET 19, gobeithio......

Y "newyddion mwyaf cyffrous ym myd y digwyddiadau pop ers 'Pan Ddêl Medi' yng Mghorwen", medd *Y Cymro* (Rhagfyr 30ain 1975); "Amen" medden ninnau, gan estyn gwahoddiad i chi oll nos Iau, Chwefror 19eg i ymuno mewn noson sy'n sicr o fod yn un o ddigwyddiadau'r flwyddyn. Cynhelir CABARET 19 yng Nghlwb y Spotlight, Gerddi Soffia, Caerdydd yng nghwmni Dafydd Iwan, Heather Jones, Olwen Rees, y grwp *Mynediad am Ddim* a Hywel Gwynfryn a'i ddisgo disglair. Cabaret o'r radd flaenaf, dawnsio tan 1.30 a.m., raffl anferth gyda gwobrau lu a bar tan 1.00a.m. — a dim ond £1 am docyn. (Mae tocynnau ar werth yn Siop y Triban, Tel: 30042.) Mae bysiau wedi eu trefnu eisoes mewn rhai ardaloedd tu allan i Gaerdydd; ymholer yn lleol am hyn ac os nad oes bws yn dod o'ch cylch chi, beth am drefnu un a dod â chriw mawr lawr i Erddi Soffia ar y 19eg?

I'r rhai sy'n caru cadw'u cynffonnau'n fwy llonydd, mae gan y pwyllgor rywbeth at eich dant chwi hefyd, sef Cyngerdd Gŵyl Dewi yn Theatr y Sherman, nos Sul Chwefror 29 am 8.00p.m. Bydd y cyngerdd yn dathlu'r Ŵyl mewn rhaglen sy'n gyfuniad o'r modern a'r traddodiadol. Ymhlith yr artistiaid a fydd yno i'n diddanu bydd y grwpiau adnabyddus TRIBAN a CWRWGL SAM — a chawn gyfle hefyd i groesawu NELI yn ôl i'r llwyfan y gwnaethant eu ymddangosiad cyntaf arno dwy flynedd yn ôl (maent wedi cytuno, yn garedig iawn, i roi eu perfformiad blynyddol yng Nghaerdydd at wasanaeth Cronfa'r Eisteddfod). Bydd prentis-glocswyr Randal Isaac yn perfformio i gyfeiliant ffidil anhygoel Bethan Miles, a chawn wrando ar ganu penillion gwych gan Côr Penillion Caerdydd. Bydd Gwyndaf (o'r grwp BRÂN) yn cyfuno'r idiom fodern a'r traddodiadol gydag eitemau ar ei delyn hudol; yn ddiweddarach, cewch gyfle i holltì'ch ochrau yng nghwmni'r digrifwr ifanc o Lanbed, Andrew Jones. I glymu'r cwbl at ei gilydd, bydd myfyrwyr Coleg Cerdd a Drama Caerdydd yn perfformio cyfres o gyflwyniadau dramatig (mwy o ddisgrifiad na hynny ni ellir ei roi ar hyn o bryd!) rhwng y gwahanol eitemau. Noson o hwyl a diddanwch i'r teulu i gyd — a chyfle i ddathlu Gŵyl Dewi'n go iawn heb orfod teithio i'r Albert Hall chwaith! Tocynnau: £1 (50c i blant) o Swyddfa Docynnau Theatr Sherman.

Bwriedir dwyn y gweithgareddau i ben gyda dawns fawreddog yn Neuadd Ymgynnull Y Ddinas nos Lun, Mawrth 1af, noson Gŵyl Dewi. Mae hon yn noson uchelgeisiol a'i sail yn lled eang. Teimlad y pwyllgor oedd y dylid gwneud hon yn ddawns elusennol, a gwahoddwyd eraill i ymuno â ni. I ddechrau, estynnwyd gwahoddiad i Bwyllgor Eisteddfod Genedlaethol Yr Urdd yn Y Barri. Wedyn, cafodd gwahoddiad fynd i Tenovus a derbyniodd yntau'r gwahoddiad yn llawen. Y gŵr a fu'n gyfrifol am sicrhau'r neuadd ddawns am ddim i'r pwyllgor oedd Y Cynghorwr Dunleavy, a chafodd ef ddewis y bedwaredd elusen. Dewisodd Dŵr Eglwys Sant Ioan yng nghanol y ddinas, sydd, fel pafiliwn yr eisteddfod genedlaethol, yn bur ansicr o'i draed y dyddiau hyn. Ar ôl i'r pwyllgorau gwrdd deirgwaith a symud ymlaen yn lled bell, penderfynodd Tenovus dynnu'n ôl, a phenderfynwyd ystyried cronfa elusennol arall, sef Cronfa Feddygol Ysbyty'r Waun — cronfa sy'n cynorthwyo gwaith ymchwil i lu o wahanol afiechydon. Nawr, mae'r bedair elusen yma'n cydweithio i sicrhau y bydd y brifddinas yn dathlu gŵyl ein nawdd sant yn Neuadd y Ddinas. Bydd hon yn noson fawr — i bawb. Felly, cofiwch ddod.

££££££££££££££££££££££££

# Ffilmiau Cymru

**Wneuthurwyr-ffilmiau Caerdydd, dyma'ch cyfle mawr! Mae Adran Ffilmiau Cyngor y Celfyddydau ar hyn o bryd yn cynnal cystadleuaeth sgript ffilm sy'n gwahodd ymgeiswyr i ddanfon sgript ar gyfer ffilm fer (dim mwy na deng munud o hyd) at yr Adran i'w hystyried. Fe ddyfernir cymhorthdal o hyd at £500 yr un ar gyfer y chwe ymgais orau.**

Beth yw pwrpas cystadleuaeth fel hon sydd, ar yr olwg gyntaf, yn cynnig arian bach iawn ar gyfer gweithio mewn cyfrwng yr ydym oll yn gyfarwydd â chlywed ei drafod mewn termau o filiynau o bynnau? Yn ôl Martyn Howells, Swyddog Ffilmiau Cyngor y Celfyddydau, pwrpas deublyg. "Ychydig iawn o arian sydd gan yr Adran", medd Martin, "dim ond rhyw £11,000 eleni, a thorcalonnus braidd oedd derbyn cais ar ôl cais am gymhorthdal o filoedd o bunnau a methu ag ymateb iddynt. Wrth gwrs, gall gwneud ffilmiau proffesiynol, masnachol fod yn ddychrynllyd o gostus — ond ar yr un pryd, mae unigolion ledled y byd yn dal i fedru cynhyrchu ffilmiau byr da iawn ar gyllid eithriadol o fach. Bwriad y gystadleuaeth hon felly yn y lle cyntaf oedd tywys gwneuthurwyr-ffilmiau yng Nghymru i feddwl am yr hyn a ellir ei wneud o fewn terfynau ariannol cyfyng. Yn eilbeth, gan nad oes gennym nemor ddim arian i'w wario ar hysbysebu, y gobaith yw y bydd i'r gystadleuaeth dynnu sylw hefyd at fodolaeth yr Adran Ffilmiau a'i gwaith yng Nghymru."



*MARTYN HOWELLS, Swyddog Ffilmiau Cyngor Celfyddydau Cymru*

Beth yw sefyllfa ffilmiau yng Nghymru yn gyffredinol felly?

"Dim yn ddrwg, ag ystyried cyn lleied o sylw sydd wedi bod i'r cyfrwng hwn yng Nghymru hyd yn gymharol ddiweddar. I'w gymharu â'r Alban er enghraifft, lle mae ganddynt eu Cyngor Ffilmiau Cenedlaethol ers blynyddoedd bellach, a diwydiant ffilmiau bach llewyrchus, o safbwynt sinemâu masnachol a chymdeithasau ffilm, mae gan Gymru yr un gymaint y pen o'r boblogaeth â'r Alban. Y gwendid mawr wrth gwrs yw'r prinder o gynhyrchwyr ffilmiau yma yng Nghymru."

Mae'r Alban ar y blaen felly yn hyn o beth?

"O bell ffordd. Mae yna 16 o gwmniau cynhyrchu ffilm yn yr Alban; rhai bach, wrth reswm, ond â digon o waith i gyflogi rhyw 60-80 o bobl yn llawn-amser. 'Does 'na'r un yng Nghymru. Mae 'na unigol ion o gynhyrchwyr sy'n gwneud ffilmiau yng Nghymru — drwy gasglu criw at ei gilydd ar gyfer un ffilm benodol — ond 'does dim un uned gynhyrchu barhaol. Gellir dadlau efallai nad oes yma'r gwaith i gynnal unedau o'r fath, ond hwyrach mai rhyw ddadl cyw-ac-ŵy yw honno yn y bon."

Beth mae'r Adran Ffilmiau yn ceisio ei wneud ar hyn o bryd?

"Buom yn canolbwyntio hyd yn hyn ar brynu offer er mwyn sefydlu adnoddau golygu ffilm 16mm yma yng Nghymru. Mae gennym eisoes un peiriant golygu 16mm ac mae Canolfan Gelfyddydau Chapter wedi derbyn cymorth ariannol gennym i ddatblygu ystafell olygu yn y ganolfan. Gobeithiwn allu prynu peiriant golygu arall cyn hir a lleoli hwnnw ym Mangor. Yna fe fydd y cyfleusterau hyn ar gael at wasanaeth gwneuthurwyr-ffilmiau yng Nghymru i'w harbed rhag gorfod mynd i Lundain, neu orfod llogi'r peiriannau eu hunain am gost uchel."

Beth am waith Bwrdd Ffilmiau Cymru sydd wedi bod wrthi ers rhai blynyddoedd bellach?

"Mae'r Bwrdd yn gwneud gwaith da i geisio llanw'r bwlch o safbwynt ffilmiau yn yr iaith Gymraeg. Maent eisoes wedi darparu nifer o gartwnau wedi eu dybio i'r Gymraeg o ieithoedd eraill, ac wedi comisiynu nifer o ffilmiau gwreiddiol Cymraeg megis *Yr Hen Dynnwr Lluniau* (gan William Aaron). Mae ganddynt hefyd gasgliad o ffilmiau Cymraeg o waith cyrff eraill megis BBC Cymru ac y maent yn llogi'r holl ffilmiau hyn allan i'w dangos ledled Cymru. Ar hyn o bryd, mae gan y Bwrdd ffilm newydd ar y gweill, "thriller" ddoniol o'r enw *Gwaed ar y Sêr*."

Onid yw gwaith y Bwrdd Ffilmiau'n gorgyffwrdd yn aml iawn â gwaith yr Adran Ffilmiau?

"Na; tra bod ein hamcanion sylfaenol yn debyg, mae ein blaenoriaethau yn dra gwahanol. Blaenoriaeth bennaf y Bwrdd yw cynhyrchu ffilmiau Cymraeg; ein hamcan ninnau yw hybu cynhyrchu ffilmiau o safon dda yng Nghymru ym mha iaith bynnag.

Yn yr un modd, swyddogaeth y Bwrdd yw gwasanaethu'r gynulleidfa Cymraeg sy'n awchu am ffilmiau Cymraeg a diwallu'r angen hwnnw; mae'n rhaid iddynt felly ystyried gofynion a diddordebau cynulleidfa wrth wneud eu ffilmiau. Mae gennym ni fwy o ryddid i gefnogi syniadau gwreiddiol, da heb fod ymateb cynulleidfa yn mynd yn brif ystyriaeth."

Diddorol iawn oedd clywed crynodeb Martyn o'r sefyllfa yng Nghymru ond ni all dyn lai na theimlo fod cymaint mwy y gellid ei wneud, hyd yn oed o fewn y terfynau ariannol presennol. Maddeuer gair o feirniadaeth gan anwybodusyn, sy'n deillio o siom ar ôl gweld cartŵn llawn-hyd Bwrdd Ffilmiau Cymru, *Ynys y Trysor*, yn ddiweddar: ffilm wael, eilradd ei harlunwaith a dryslyd ei stori wedi eu dybio'n siomedig o'r Saesneg i'r Gymraeg am gost o rai miloedd o bunnau, Onid gwell fyddai fod wedi gwario'r arian hwn ar gynhyrchu deunydd cartref — a hyfforddi gwneuthurwyr ffilm ifainc yn y broses?

Mae gennym goleg yng Nghymru sy'n cynnig cwrs mewn gwneud ffilmiau, sef Coleg Celf Casnewydd. Mae'r myfyrwyr yno wedi eu llyffetheirio gan ddiffyg arian, cyfyngir yn hallt ar hyd (ac ansawdd weithiau) y ffilmiau y gallant eu gwneud fel rhan o'u cwrs am fod yn rhaid iddynt dalu am lawer o'r defnyddiau o'u pocedi eu hunain. Oni ellid cynnig ysgoloriaethau i fyfyrwyr o Gymry (yn ychwanegol at grantiau arferol) naill ai a) ar gyfer defnyddiau neu b) er prynu amser ychwanegol iddynt gan fod gwaith creu cartwnau er enghraifft yn waith llafurus a maith dros ben, a'r myfyrwyr yn rhedeg allan o amser colegol yn ogystal ag arian. Dyma greu cartwnau (yn enwedig) Cymraeg, gwreiddiol a chynorthwyo i hyfforddi gwneuthurwyr-ffilmiau'r dyfodol yr un pryd.

Yn awr, rhaid eistedd yn ôl a disgwyl am y storm a ddaw i'm hysbysu fod cynllun o'r fath yn gwbl anymarferol. Sut bynnag, yn y cyfamser, gwahoddiad agored i unrywun sydd â diddordeb i fynd ati i gynllunio ei ffilm ei hun yn ystod y misoedd nesaf. Ceir manylion pellach ynglŷn â'r gystadleuaeth oddi wrth: Yr Adran Ffilmiau, Cyngor Celfyddydau Cymru, 9 Stryd yr Amgueddfa, Caerdydd. (Ffôn: 394711) Dyddiad cau'r gystadleuaeth yw Mawrth 31ain 1976.

S.A.E.

Sain

Mae record hir newydd

BRÂN

*"Ail-ddechra"* (Sain 1038M)

yn y siopau yn awr.

**Cofiwch hefyd am recordiau newydd**
Edward H. Dafis
Sidan
Mynediad am Ddim
Hergest
a Mary Lloyd-Davies
a'r opera werin
*"Melltith ar y Nyth"*

SAIN, Ffordd Llanllyfni, Penygroes. (Ffôn: 732)

# DOD......

**Rai misoedd yn ôl fe ymddangosodd erthygl yn *Y Dinesydd* yn talu teyrnged i'r Parch. D. Lodwig Jones ar ei ymadawiad o Gaerdydd wedi cyfnod llewyrchus fel gweinidog eglwysi Heol-y-Crwys a Pembroke Terrace. Bellach y mae ei olynydd, Y Parch Cynwil Williams, wedi dod i'n plith ac wedi dechrau ar ei waith. Nid yw'r gŵr ifanc hwn yn anenwog o bell ffordd: gŵyr Cymru gyfan amdano fel pregethwr sy'n cyflwyno'r Efengyl gyda nerth a llawenydd, a hysbys inni hefyd yw'r parch a roddwyd iddo yn ei ofalaethau blaenorol am ei fugeiliaeth egnïol a brwdfrydig.**

Y mae'n hannu o Gwrtycadno, Sir Gâr, a chafodd ei addysg gynnar yn yr ysgol leol ac Ysgol Uwchradd Llanymddyfri. Aeth i Goleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth, lle y graddiodd gydag anrhydedd mewn Cymraeg, ac yna i'r Coleg Diwinyddol yn yr un dref, a graddio mewn diwinyddiaeth yno. Dechreuodd ar ei weinidogaeth yn Eglwys Heol Dŵr, Caerfyrddin, ac ar ôl rhyw dair blynedd symudodd i Ddinbych lle bu'n bugeilio gofalaeth y Capel Mawr am y deng mlynedd diwethaf.

Nid oes ganddo gartref sefydlog yng Nghaerdydd eto; ar hyn o bryd y mae'n lletya gyda pherthynas, Mr David Mathias, 40 Earl's Court Road, Penylan. Wedi iddo brynu tŷ, fe fydd ei deulu yn symud o Ddinbych ato.

Brodor o Rydaman yw Mrs Carol Williams, hithau fel ei gŵr wedi graddio yng Nholeg y Brifysgol, Aberystwyth, ac yn gyfreithreg drwyddedig. Y mae ganddynt dair merch.

**Eglwys Newydd Unedig**

'Roedd Sul cyntaf y flwyddyn newydd yn ddiwrnod mawr yn Heol-y-Crwys, nid yn unig am fod ein gweinidog newydd yn pregethu yno am y tro cyntaf, ond hefyd am ei fod yn amgylchiad pwysig yn hanes Eglwys Bresbyteraidd Cymru yng Nghaerdydd. Y Sul cynt caewyd drysau capel Pembroke Terrace am y tro olaf, a bellach y mae'r ddwy eglwys wedi dod at ei gilydd yn un eglwys newydd, yn addoli yn Heol-y-Crwys. 'Roedd cynulliad arbennig o gryf yno fore'r Sul hwnnw: llawr y capel wedi llenwi bum munud cyn amser dechrau'r gwasanaeth, a'r sêt fawr yn rhy fach i gynnwys y llu o blant a ddaeth i ddweud adnodau, arwydd o'r pwys mawr a roddid ar yr amgylchiad gan yr aelodau. Arwydd eu bod eisoes wedi cymryd y Gweinidog at eu calonnau oedd y ffaith fod y cynulliad lawn cyn gryfed bythefnos yn ddiweddarach pan gymerodd y gwasanaeth am yr ail dro. Llawn hefyd oedd y festri ar noson Seiat, y pymthegfed o'r mis. Mae hyn yn galondid mawr i'r bugail a'i braidd wrth gychwyn ar eu taith gyda'i gilydd i'r dyfodol.

Nid aelodau Heol-y-Crwys yw'r unig rai o Gymry Caerdydd sydd wedi cael y fraint o wrando ar Mr Williams yn pregethu. Ar y Sul cyntaf o'r Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol bu'n llenwi pulpud Eglwys Dewi Sant, tra'r oedd y Parch. George Noakes yn pregethu yn Heol-y-Crwys.

Mae'n siwr y daw Cymry Caerdydd o bob eglwys ac enwad i adnabod Mr Williams fel cyfaill, ac y cymer ei le fel un o arweinwyr bywyd Gymraeg y ddinas cyn pen fawr o dro. Llawenydd a braint yw cael ei groesawu i'n plith, a boed bendith a llwyddiant arno ef a'i eglwys yn eu gwaith.

D.T.

## Gadael y ddinas

Mae pob un sy'n dod i eglwys Dewi Sant yn barod i ddweud, "Ond yw'r lle'n lân a thaclus?"

Rhaid i'r rhan fwyaf o'r clod am hyn fynd i Mrs Slimm a fu'n gwneud y gwaith ers blynyddoedd bellach. Ond yn ddiweddar, penderfynodd ddychwelyd i'w hen fro yn Nhrimsaran, Dyfed. Gan nad yw iechyd Mrs Slimm wedi bod gyda'r gorau yn ddiweddar, mae pawb yn deall paham, ond mae ei holl gyfeillion yn y ddinas yn dymuno hawddamor iddi wrth iddi hi droi ei golygon tua'r gorllewin. Arbenigrwydd Mrs Slimm oedd ei gallu i drin blodau mewn llestr, a'r hyn a gwyd galon dyn o wybod ei bod am fynd yw fod blodau'n tyfu'n llawer gwell yn Nhrimsaran nag yng Nghaerdydd, medden nhw!

**Oriel**

**53 Heol Siarl Caerdydd**
**Teliffon: 0222 395548**

*Siop Lyfrau/Oriel*

************

**Poster Newydd:**
**Dysgub y Dail**
**— Crwys £1.00 yr un**

************

Galwch heibio i weld ein casgliad cynhwysfawr o lyfrau ar y Ieithoedd Celtaidd, yn cynnwys nifer o gyfrolau ar Ganeuon Gwerin, Traddodiadau llafar, ac ar y iaith Gernyweg.

************

# ......A MYND

Cafodd aelodau Dewi Sant gryn sioc yn ddiweddar pan daeth y newyddion am ymadawiad y ficer rywbryd yn ystod y mis hwn. Daeth i Dewi Sant naw mlynedd yn ôl, ar ymadawiad Canon Rosser a dreuliodd flynyddoedd lawer yn yr ofalaeth a gwneud yr eglwys yn un o eglwysi Cymraeg cryfaf Cymru. Buan y setlodd y ficer newydd a'i wraig i lawr ymhlith eu praidd ac roeddynt yn fawr eu parch a'u gweithgarwch ymhobman. A chan i'r ddau ddweud fwy nag unwaith eu bod wrth eu bodd yn y ddinas, roedd y newyddion yn bur annisgwyl.

Ond fe ddaeth yr alwad i fugeilio eglwysi Aberystwyth — galwad sy'n ddyrchafiad a hefyd yn gyfle i ddychwelyd i'r hen ardal a bu'r cyfle'n rhy daer ei apêl i'w wrthod. Erbyn y bydd y newyddion hyn wedi gweld golau dydd, fe fydd yr holl baratoadau ar gyfer cyfarfod ffarwel mewn llaw. Fe sefydlir Y Parchedig George Noakes yn ficer ar eglwysi Aberystwyth yn ddiweddarach yn y mis.

Carfan arall a fydd yn gweld eisiau Mr Noakes yw Dosbarth Athroniaeth yr Adran Efrydiau Allanol sy'n cwrdd yn Adeilad y Celfyddydau bob nos Fawrth o dan ofal Dr Meredydd Evans. Bu'r athronydd-offeiriad hynaws yn ffyddlon iawn i'r dosbarth ar hyd yr adeg — a thristwch mawr fydd colli'r elfen ddiwynyddol yn y trafod athronyddol o hyn ymlaen!

Dymuniadau gorau iddo a Mrs Noakes yn eu cartref newydd — a lwc owt athronwyr Aberystwyth a'r cylch!



*Y PARCH GEORGE NOAKES*

# Plannu derwen gref

Hwyrach mai un o'r camau pwysicaf yn yr ymdrech i ail-Gymreigio'n prifddinas oedd agor Ysgol Feithrin Gymraeg yn Splott fore Llun, Ionawr 5ed yn festri Capel Cymraeg Bethlehem, Splott. Ar adeg pan y tueddir ysywaeth i uniaethu Cymreictod yng Nghaerdydd â mudiadau dosbarth canol, a phan mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion sy'n cynnig unrhyw fath o addysg Gymraeg wedi eu lleoli yn maestrefi dosbarth canol Caerdydd, mae agor ysgol Gymraeg mewn ardal ddosbarth weithiol, sydd bron â cholli pob cysylltiad â'r Gymraeg erbyn hyn, yn ddigwyddiad aruthrol bwysig a allai arwain at dorri drwodd ar raddfa llawer mwy cyffredinol yn y dyfodol.

Mae Owen John Thomas, sy'n adnabyddus i ddarllenwyr y papur hwn am ei waith dygn a dibaid dros addysg Gymraeg yng Nghaerdydd, yn ffyddiog mai cynyddu a wna'r ysgol nawr ei bod wedi ei sefydlu. Ei weledigaeth ef oedd yr ysgol hon yn y lle cyntaf ac ef a aeth ati i ddechrau canfasio'r strydoedd o gwmpas y capel, a gosod yr achos dros addysg Gymraeg ger bron y rhieni ar y rhiniog ac mewn cyfarfodydd cyhoeddus.

Ar hyn o bryd, mae gan yr athrawes, Mrs Margaret Evans, bump o ddisgyblion yn ei hysgol: mesen fechan a allai dyfu'n dderwen anferth yn canghennu i bob cyfeiriad wrth iddi ennill mwy a mwy o ddiddordeb a chefnogaeth rhieni'r cylch.

## MYND AM Y 300!

Bydd Eglwys Annibynnol Ebeneser yn dathlu canmlwyddiant a hanner yr achos yn ystod mis Mawrth eleni. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da am y ganrif a hanner nesaf.

# YR URDD: Dosbarth Caerdydd

Gorffenwyd rhaglen y tymor gyda pharti Nadolig i blant ysgolion cynradd y dosbarth. Cafwyd cefnogaeth dda i'n gweithgareddau eleni, a'r un fu'r ymateb i'r parti Nadolig pan ddaeth rhyw gant o blant ynghyd i'r Ganolfan i ymuno yn y chwareuon a'r gloddesta.

Wythnos ynghynt, ar Ragfyr 10fed, daeth yn agos i 800 o blant at ei gilydd i Eglwys y Tabernacl, i ymuno mewn gwasanaeth o fawl i ddathlu'r Nadolig. Arweiniwyd y gwasanaeth gan Mr Gareth Glyn Davies ac fe'i cynorthwywyd ar yr organ gan Mr Arwel Hughes. Bu'r gwaith o drefnu'r gwasanaeth yn nwylo Mr Moelwyn Preece, ac mae'r Pwyllgor yn ddyledus iawn iddo am y gymwynas hon.

O bryd i'w gilydd daw galw arnom i gynnal ymgyrch i godi arian, naill ai at ryw fudiad dyngarol neu er mwyn hybu gwaith yr Urdd o fewn y dosbarth. Eleni penderfynwyd ar ymgyrch i noddi sillafwyr, gan ganolbwyntio ar y rhai hynny sy'n dysgu Cymraeg, boed mewn ysgol neu mewn grwpiau oedolion. Trefnwyd yr ymdrech gan Miss Catrin Davies ac mae'n ffyddiog y bydd i'r 'Sillafwyr' sicrhau elw sylweddol a fydd o gymorth mawr i'r Pwyllgor sy'n rheoli'r Ganolfan.

Parhawyd rhaglen yr ysgolion cynradd ar y 12fed o Ionawr gyda noson o chwareuon dan do a dilynwyd hyn, ar Ionawr 26ain, gan Ffug-Eisteddfod. Os ydych chi'n arwain adran neu Aelwyd, cofiwch am y pwyllgor Dosbarth yn y Ganolfan am 5.00p.m., Chwefror 12fed. Bydd angen cwblhau'r trefniadau ar gyfer y ddwy Eisteddfod Gylch yn y Pwyllgor hwn.

GARWYN DAVIES


Hen Lyfrau yn eisiau

HEN NEU AIL-LAW
HEFYD CYLCHGRONAU A PHAPURAU

Gallwn alw i'w gweld

SIOP Y PETHE

ABERYSTWYTH

7120


# CRONFA'R MIL O FILOEDD

## GWEITHGAREDDAU CHWEFROR

NOS LUN 9

NOSON WERIN
Theatr Chapter, Heol y Farchnad, 7.30p.m. Canu penillion, canu gwerin, sŵn y tannau. Darperir lluniaeth ysgafn. Tocynnau: 80c a 50c (plant), ar gael oddi wrth Mair Elvet Thomas, 26 Gerddi Plasturton, Caerdydd. Ffôn: 22589.

PRYNHAWN SADWRN 14

NOFIO NAWDD
Ysgol Glan-y-Nant. Dewch i dreulio'r nawn yn gwylio'r bobl ifanc yn nofio! Manylion: Mr Thomas Davies, BBC.

NOS IAU 19

CABARET 19
Clwb Spotlight, Gerddi Soffia, Caerdydd. Dafydd Iwan, Heather Jones, Mynediad am Ddim ac Olwen Rees mewn cabaret; dawnsio hyd 1.30a.m. i ddisgo Hywel Gwynfryn. Bar hyd 1.00a.m., bwyd ar werth yn ystod y noson. Dechrau am 8.00p.m. Tocynnau: £1, o Siop y Triban, ffôn 30042

## PWYLLGOR CAERDYDD

NOS SUL 29

CYNGERDD GŴYL DEWI
Theatr Sherman, Caerdydd. gyda TRIBAN, NELI, CWRWGL SAM, Gwyndaf a'i delyn, Clocswyr Ysgol Gynradd Caerffili, Côr Penillion Aelwyd Caerdydd a Chriw'r Castell. Arweinydd: Andrew Jones. Dechrau am 8.00p.m. Tocynnau: £1 a 50c (plant), ar gael o Swyddfa Docynnau'r Sherman. Ffôn: 25855.

NOS LUN MAWRTH 1af

DAWNS ELUSENNOL Y FLWYDDYN
Neuadd y Ddinas, Caerdydd. (Elw at Gronfa'r Mil o Filoedd, Cronfa Tŵr Sant Ioan, Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Y Barri, Cronfa Feddygol Ysbyty'r Waun a Chymru.) Tocynnau: £3.50 yr un (yn cynnwys bwffé). Manylion oddi wrth Mrs Mallt Anderson, 158 Ffordd Ddwyreiniol y Llyn. Ffôn: 753695.

*(Gellir cael unrhyw fanylion cyffredinol drwy law'r Ysgrifennydd, Mr W.J. Jones, 46 Heol Crystalwood, Caerdydd. Ffôn: 756282.)*

# Nosweithiau yn y Ddinas

*Taith o gwmpas clybiau nos Caerdydd yng nghwmni A.N. Hysbys, arbennigwr ar fywyd nos y brifddinas y bu'r Dinesydd yn ffodus iawn i allu sicrhau ei wasanaeth ar gyfer y rhifyn hwn. Darllen hanfodol i ymwelwyr — a nifer helaeth o'r brodorion!*

**Mae Caerdydd newydd golli i Brighton and Hove Albion neu mae Crystal Palace newydd drechu hogie Leeds. Mae Andre Previn newydd fod yn cyfareddu Michael Parkinson neu mae Robert Morley wedi bod yn diflasu pawb. Mae Iwan Thomas neu John Evans yn dweud 'ta ta' wrth bawb; mae'r Midnight Movie heno yn hŷn nag arfer. Druan o drigolion Llangadfan neu Lannerch-y-medd; mae'n rhaid iddyn nhw roi'r huddug ar y tân a mynd yn dawel i'w gwelyau! Diolch byth fod dyn yn byw ym mhrifddinas Cymru — dydy hi ddim eto'n rhy hwyr i gael 'drink' bach!**

Wedi meddwl, mae hi braidd yn hwyr i 'nelu am Qui Qui's yn Charles Street — mae fan honno yn cau am hanner awr wedi hanner nos, ac os bydd rhywun yn cyrraedd yno ar ôl 'stop tap' y tafarndai maen nhw'n codi tâl mynediad ar y dynion ac yn ffwdanu ynglŷn â denims neu ddiffyg teis. (Ond mae o'n lle da amser cinio am botei ddigon derbyniol o glaret a hamburger. Mae o hefyd yn lle arbennig o dda i gael hyd i nyrsus neu ddoctoriaidd!)




Mi faswn i'n marw o syched cyn mynd yn agos i'r twll 'na yn y Docie — y Casino. Mi wn fod recordie'r Tebot Piws a Dafydd Iwan wedi cael eu chwarae'n rheolaidd yno bob nos Iau am ryw ganrif bellach ond prin fod y gwasanaeth hwnnw'n rhoi'r hawl iddyn nhw i godi crocbris am bob diod. P'run bynnag, ches i erioed mohoni'n hawdd dawnsio i recordie Dafydd Iwan a phan y'u chwareuir nhw ar raddfeydd o rai miliynau o ddesibels mae sgwrs hefyd yn amhosib. Mae anghwrteisi yn gymaint rhan o'r lle â'r sŵn a'r sbotiau seicadelig brown a melyn yna ar y to, ac mi rydach chi'n debycach o gael gafael ar siampaen yn festri Capel Crwys na chael hyd i seiffon soda yma.

Wel, dydy pethe ddim yn swnio'n od o addawol hyd yma, nac 'dyn? Beth am y crop o farie gwin sy wedi codi eu pennau yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf? Rhaid i mi gyfaddef na fûm i yn yr un yn Womanby St ers ei wedd-newid, ond go brin y gall o fod yn waeth na'i ragflaenydd, El Vino. Roedd fan honno'n f'atgoffa i weithie o ddymp sbwriel Cyngor Machynlleth; dro arall roedd dyn yn meddwl 'i fod o'n ymbalfalu drwy Gors Caron. Eto, roedd prisie'r lle'n ddigon i godi gwallt pen y rheolwr banc addfwyna'.

Rhyw ddiddrwg ddidda i'm tŷb i yw'r Spanish Bodega yn Bute Terrace a'r Casa Martinez yn Heol Eglwys Fair. Yr un un ffyrm sy'n elwa o'r ddau le ond mae'ch car chi'n debycach o fod yn ei le pan ddewch chi allan o'r Casa am ddau o'r gloch y bore. Mae'r prisie yn y ddau le'n ddigon rhesymol ond am hanner nos nos Sadwrn os nad ydech chi'n arfer prynu vodka i'r cewri boliog sy'n gwarchod y drws, gall fod yn anodd cael mynediad.

Heb gerdyn aelodaeth neu wir ddawn y pen — 'smoothie' mi fydd hi'n amhosib cael mynediad i far gwin Flagstone yn Westgate St. Ond fan hyn *yw'r* lle i gael eich gweld ar nos Sadwrn. Peidiwch â synnu chwaith tasa chi'n cael cip ar y cyn Miss World, Helen Morgan yno ac mi allai warantu fod y Miss Wales bresennol yno bron bob nos a thua hanner cant neu fwy o ferched na faswn i'n synnu dim i'w gweld hwythe'n gwisgo lifrau Miss Wales ym 1976, 1977, 1978, 1979 ac ati. Mae'r dynion yno *i gyd* yn dal ac yn denau — pob un fel tae newydd gerdded allan o 'Mates' neu 'Chessmans' ac ambell un hefyd gydag E-type neu Porsche rownd y gornel.

Ond er fy mod i'n teimlo'n isel fy stâd ac yn anheilwng iawn yn y fath gwmni, y mae i'r lle yma ei fanteision — dangosir ffilmie Micky Mouse ac arwyr eraill yn barhaol ar wal un bar, ac mi allwch chi hefyd yfed sudd oren bendigedig yma heb i neb eich saethu chi. Mi allwch hefyd wrth gwrs dreulio teirawr yn breuddwydio am gael hebrwng y flonden luniaidd 'na adre i'w fflat neu am gael eich hebrwng eich hun yn un o'r E-types 'na.

O un ffantasi at un arall. Y ffantasi sy gen i ynglŷn â'r Charleston Club ym mhen uchaf Bute Street yw mai dyna'r math o glwb y byddai gangster go iawn yn treulio oriau'r nos ynddo yng nghwmni ei 'underlings'. Ches i erioed mo 'ngwrthod yma ond eto mae yna rywbeth 'select' iawn am y lle. Welwch chi byth mo'r lle'n llawn a rhyw adar brith sy'n parchu odrwydd ei gilydd yw pawb. Tair neu bedair o buteiniaid sy wedi 'laru ar fywyd y stryd am noson ac wedi penderfynu troi at y botel am awr neu ddwy. Y boi o Sblott sy'n dathlu diwedd ei garchariad gyda'i fam- yng-nghyfraith, 'fancy-man' arall sy'n wraig ac unrhywun arall sy'n fodlon yfed gyda fo. Pedwar dyn du sy'n dod yma bob nos i son am geffylau heddiw a cheffylau fory, i barablu am siomedigaethau a gobeithion. Mae 'na arogl pechod yma (ond ew, mae o'n arogl neis!) ac mae'r cloc yma rai oriau'n arafach na chlocie llefydd yfed eraill Caerdydd.




Pe tae'r Charleston yn lle cwbl gwbl berffaith mi fyddai yno 'pool room' ac ambell fwrdd gamblo. Dwi'n cofio'r dyddie braf cyn y Ddeddf Gamblo chwe mlynedd yn ôl pan oedd hi'n bosib gwneud ffortiwn gyda Black Jack am fuddsoddiad o deirpunt. Er mwyn cadw'r Mafia o Gaerdydd, ateb Roy Jenkins oedd atal yr hapchwarae diniwed hwnnw yn y Charleston a chlybie bach tebyg. Rwan dim ond yn y King's Casino a Les Croupiers y caniateir 'flutter' bach ond mae angen llond trol o bapurau punnoedd arnoch chi cyn gallu mentro i'r palasau hynny.

A.N. Hysbys

## CALENDR CHWEFROR — MAWRTH

**CHWEFROR**

| | |
|---|---|
| 5-7 | Cwmni Theatr Cymru PERSI RYGARUG Yr Arena, Theatr Sherman. 8.00p.m. |
| 6 | Noson gyda DAFYDD IWAN. Theatr Reardon Smith, 8.00p.m. Yr elw i Ysgol Feithrin Llysfaen. |
| 7 | DYDD BANERI yr Urdd. Cynorthwywyr i alw yn festri Capel Ebeneser rhwng 9.30a.m. a 4.00p.m. |
| 9 | Cronfa'r Mil o Filoedd NOSON WERIN Canolfan Chapter, Treganna. 7.30p.m. |
| 11 | Cymdeithas Lenyddol Caerdydd Y DDRAMA HEDDIW — agwedd yr actorion. John Ogwen, Maureen Rhys ac eraill. Theatr Bute, Coleg Cerdd a Drama 8.00p.m. |
| 14 | Cronfa'r Mil o Filoedd NOFIO NAWDD yn Ysgol Glan-y-nant. Manylion gan Thomas Davies, BBC, Llandaf. |
| 16 | Clwb Ty'r Cymry YMWELIAD Â CHANOLFAN YR URDD 7.30p.m. |
| 19 | Cronfa'r Mil o Filoedd CABARET 19 Clwb y Spotlight, Gerddi Soffia. 8.00p.m. hyd 1.30a.m. |
| 23 | Clwb Ty'r Cymry. Dadl Y GYFRAITH gyda Michael Jones yn llywyddu. 7.30p.m. |
| 28 | Cymrodorion Caerdydd CINIO DATHLU GŴYL DEWI Gwesty'r Parc. Prif Westai — Miss Norah Isaac. |
| 29 | Clwb Ty'r Cymry CYMANFA GANU GYDENWADOL i ddathlu Gŵyl Dewi. Ebeneser; |
| | Cronfa'r Mil o Filoedd CYNGERDD GWYL DEWI Theatr Sherman 8.00p.m. |

**MAWRTH**

| | |
|---|---|
| 1 | Cronfa'r Mil o Filoedd DAWNS GŴYL DEWI Neuadd Ymgynnull y Ddinas |
| 2 | Merched y Wawr yn DATHLU GŴYL DEWI Canolfan yr Urdd 7.30p.m. |
| 6 | Clwb Ty'r Cymry CYNGERDD MAWREDDOG gyda Chôr Godre'r Aran. Theatr Reardon Smith. |

# A 'Nawr am y Goron!

**Fe aeth yr Awstraliaid, ac fe fu'r fuddugoliaeth drostyn' nhw yn y Stadiwm Genedlaethol ar y Sadwrn cyn Y Nadolig yn fwy trylwyr nag a broffwydai'r rhan fwya' ohonom ni. Diddorol oedd y gêm bythefnos ar ôl honno pan chwaraeodd y Saeson Awstralia ac ennill o dri phwynt ar hugain yn erbyn chwech. Buddugoliaeth sylweddol yn ôl y sgôr, a chan gofio bod tri chais ynddi ar y diwedd, ond prin bod chwarae Lloegr wedi rhoi hwb i'w calonnau nhw gogyfer â'r gêm yn erbyn y Crysau Cochion ar Ionawr 17eg. Ond dyna fe, ennill yw ennill, a phan fo dau bwynt ar bymtheg rhwng y ddwy ochr mae'r canlyniad yn siŵr o fagu hyder ymhlith y chwaraewyr.**

Beth bynnag, chlywais i neb yn proffwydo buddugoliaeth i Loegr yr ochr hon i'r Clawdd — ac yn wir, teimlid ar gyfartaledd mai rhyw ddeuddeg pwynt fyddai rhwng y ddwy ochr ar y diwedd. Ac 'roedd y cyfartaledd yn hollol iawn am unwaith, gan mai 21 pwynt i 9 oedd hi, gyda thri chais i ni a thair gol gosb iddyn nhw.

Rhyfedd oedd ymadael â "Phencadlys y Gêm", cartref yr Undeb Rygbi, heb deimlo'n fodlon wedi ennill o gymaint. Mae'r blynyddoedd o loddesta er 1969 wedi ein gwneud ni'n ddirmygus o bryd cyffredin. Cawn ni wledd eto cyn diwedd y tymor hwn naill ai yma neu yn Nulyn — neu yn y ddau le wrth gwrs. 'Dydyn ni ddim wedi ennill y Goron Driphlyg wrth chwarae'r Gwyddyl yn eu Prifddinas eu hunain er 1952, ond buasem ni wedi gwneud hynny pe chwaraesid y gêm yno yn 1972 hefyd. Gwell nodi bod rhaid chwarae'r Alban cyn ymweld â Dulyn, er nad oes fawr o berygl inni gael trafferth mawr i guro'r rheiny, oni allan' nhw wella'n ddirfawr ar safon eu chwarae'n erbyn Awstralia (ennill o 10 i 3) a Ffrainc (colli o 13 i 6), a'r ddwy gêm gartre ym Murrayfield.

Ond yn ôl at Dwicenham — yr achlysur yn hytrach na'r gêm ei hun. Mae hi'n Stadiwm weddus gyda'i thoiau ar dair ochr yn ymestyn i fyny tuag at yr awyrenni mawrion ar eu ffordd i Faes Glanio Heathrow. Mae'r glaswellt yn daclus bob amser, ac mae baner yr wyth gwlad sy'n chwarae'r gêm ar y radd ucha' yn cyhwfan uwchben yr anffodusion ar ochr ddeheuol y cae nad oes to dros eu pennau. Mae rhyw urddas i'w deimlo pan ewch chi yno ddiwrnod gêm ryngwladol, hyd yn oed pan fydd ymron hanner y dorf yn werin o wlad arall (ac 'rydym ni i gyd yn werin sy'n cefnogi'r wlad ar y maes rygbi). Gall dyn deimlo rywsut nad oes gennym hawl i fod yno o gwbl gyda'r seindorf filitaraidd yn canu "Land of Hope and Glory" a "The Standard of St George" ac ati — a'r moduron moethus yn y parc ceir y tu allan. Yn y maes parcio mae gwir awyrgylch y gêm yn Lloegr i'w phrofi, gyda chistiau'r ceir crand ar agor a'u perchnogion yn cyfranogi o'u heogiaid, a'u ffesantau a'u gwin. Gwledda'n dywysogaidd yn yr awyr agored o hanner dydd hyd yr amser i ddringo i'w seddau yn yr eisteddleoedd brenhinol. Ond hyni oedd y tywysogion ar y maes, a J.P.Rh. oedd Brenin y prynhawn.

'Does dim i'n dychryn ni bellach yn y fangre honno fel sydd gwaetha'r modd yng Nghaeredin. 'Wn i ddim beth mae'r Saeson yn ei feddwl erbyn hyn; fe wnaethan nhw'n well na'r disgwyl — chwech o'u blaenwyr beth bynnag — ond fe fyddwn i'n poeni'n arw iawn pe byddai Cymru wedi colli gartre o dri chais i ddim yn erbyn unrhyw wlad.

Mae Lloegr, cofier, wedi ennill y Goron Driphlyg dair-ar-ddeg o weithiau, Cymru ddeuddeg, Yr Alban wyth ac Iwerddon bedair, a Lloegr hefyd sy ar y blaen yn y Gamp Lawn trwy ei gwneud saith gwaith, un yn fwy na Chymru, gyda'r tair gwlad arall yn cyrraedd yr uchafbwynt hwnnw un waith yr un. Ond enillwyd y Bencampwriaeth yn glir y nifer fwya' o weithiau gan Gymru (18), gyda Lloegr yn ail (16), Yr Alban (11), Iwerddon (8) a Ffrainc (5). Bydd newid yn nhrefn y Goron a'r Gamp Lawn erbyn nos Sadwrn, Mawrth 6ed.

THOMAS DAVIES.

## CAERDYDD YN MYND AM Y FILIWN

**Does dim gwirionedd yn y si fod Cronfa'r Mil o Filoedd yn gobeithio codi pob ceiniog o'r Filiwn Euraid yng Nghaerdydd a'r cylch. Mewn datganiad i'r wasg, dywedodd llefarydd dros Bwyllgor Caerdydd, Cronfa'r Mil o Filoedd fod y Pwyllgor yn gwbl fodlon i roi'r cyfle i weddill Cymru i godi'r £11.46½ arall sy'n angenrheidiol er cyrraedd y nod.**

# CROESO I FFWLBART

**Braf fu cael ymateb cystal i'r rhifyn cyntaf o gomic Cymraeg Caerdydd gan y darllenwyr — a chan y wasg hefyd. Diolch i bawb a ysgrifennodd atom ynglŷn â'r fenter — a diolch arbennig i chi'r plant a ddanfonodd bentwr o sgwigls bendigedig at y Golygydd. Rhagor am hynny yn y rhifyn nesaf.**

**Bydd y rhifyn hwnnw allan ym Mis Mawrth a bydd ar werth am 3c y copi: os gwerthir hwnnw'n llwyddiannus, gobeithir cynhyrchu rhifynnau bob yn eilfis wedi hynny sef rhifyn mis Mai, rhifyn 'Steddfod, rhifyn Hydref a rhifyn Nadolig.**

**Bydd y comic ar werth drwy'r ysgolion yn bennaf ac apeliwn ar i athrawon a phrifathrawon yn enwedig gefnogi'r ymdrech hon drwy archebu cyflenwad i'w gwerthu yn yr ysgol. Mae rhai ysgolion wedi archebu eisoes ond mae llawer mwy yn dal heb wneud. Gellir archebu copiau o'r rhifyn Gŵyl Dewi drwy Olygydd *Y Dinesydd*.**

**Bydd y comic ar werth hefyd yn Siop y Triban ac yng Nghanolfan yr Urdd i'r rheini na fydd yn ei dderbyn drwy'r ysgol. Os dymunwch dderbyn FFWLBART yn rheolaidd drwy'r post dylid danfon tanysgrifiad o 50c am y flwyddyn at: Y Golygydd, 66 Heol Maendy, Cathays, Caerdydd, gan nodi'n glir mai ar gyfer FFWLBART y mae'r tanysgrifiad.**

**Cyn gorffen, hoffem ymddiheuro'n ddwys am garcharu Siôn Corn yn y pôs dyrys (*Ffwlbart*, tud 2) — mae'n dal i fod yno, hyd y gwyddom ni, gan nad oes ffordd allan, drwy ryw amryfusedd!**


## GWESTY PLAS MAENAN

**MAENAN, LLANRWST, DYFFRYN CONWY.**

Gwesty Cymreig Cyntaf Cymru

- NOSON LAWEN draddodiadol gyda bwydydd Cymreig, medd, gwin cartref, difyrrwch gyda'r delyn etc.
- YSTAFELL FWYTA lle cewch fwydydd nodweddiadol a gwasanaeth gyda gwên.
- GWYLIAU GAEAF yn dechrau mis Hydref. £11.50 am benwythnos.
- POB LLOFT gyda ystafell ymolchi breifat, ffôn, teledu, offer gwneud te etc.
- CYMRAEG yw prif iaith Plas Maenan.
- CYFARWYDDWYR Enid ac Alan Wyn Jones, gynt o Riwbeina.

Ffôn : DOLGARROG 232 (Côd - 049269)


# Merched y Wawr, Y Barri

Mae Merched y Wawr, y Barri wedi dechrau ar dymor llawn o weithgareddau. Ar ôl clywed hanes rhai o'n haelodau ar eu taith i Rwsia, hanes ymweliad â Kibbutz yn Israel, buom yn troi'n sylw at y Nadolig trwy gynnal noson o waith llaw a chystadlu. Bu'n llwyddiannus iawn. Ar ôl y Nadolig byddwn yn ymgynnull i wrando ar Mr John Williams darlithydd mewn Daearyddiaeth ym Mholytechneg Cymru, Siân Emlyn ar ei thaith i Batagonia, yfed cawl er cof am Ddewi Sant, ciniawa ym mis Ebrill a pherfformio drama ym mis Mai. Y swyddogion eleni yw:

Cadeiryddes: Mrs Sali Bryn Evans, 9 Bron-y-môr, Isgadeiryddes: Mrs Beti Wyn Davies, 21 Romilly Park Road, Ysgrifenyddes: Mrs Joan Davies, 52 Porth y Castell, Trysoryddes: Mrs Marian Morgan, 41 Cae leon, Gohebydd i'r Wasg: Mrs Nan Rees, 50 Romilly Road, Aelod o'r Pwyllgor: Mrs Llywela Evans, 9 Park Road.

Os oes awydd ar unrhyw un â ni, cysyllted ag unrhyw un o'r aelodau uchod. Rydym yn cyfarfod ar nos Fawrth gyntaf y mis fel arfer am 8 o'r gloch yng ngwesty'r Mount Sorrell, y Barri.

*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor Y Dinesydd. Argraffwyd gan Gyhoeddwyr Cleglen Cyf, 134 Ffordd Parc Ninian, Caerdydd; ffôn: 28917.*
*Hysbysebu gan Gyhoeddiadau ap Dafydd Cyf, 55 Heol Eglwys Gadeiriol Isa, Caerdydd; ffôn: 396262.*